# Cynnig i newid yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 yn Ysgol Cwrt Henri

## Adroddiad Ymgynghori



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

## CYNNWYS


1. **Crynodeb Gweithredol** ..... 3
2. **Y Cefndir** ..... 3
3. **Y Broses Ymgynghori** ..... 3
4. **Dadansoddi'r Ymatebion i'r** ..... 4
    - **4.1 Arolwg Ar-Lein** ..... 4
    - **4.2 Ymatebion a gyflwynwyd drwy e-bost** ..... 7
    - **4.3 Ymatebion a gyflwynwyd drwy lythyr** ..... 9
    - **4.4 Dadansoddi'r Ymgynghoriad â Disgyblion** ..... 10
    - **4.5 Ymateb Estyn** ..... 12
5. **Casgliad** ..... 14
6. **Argymhelliad** ..... 16
7. **Y Camau Nesaf** ..... 16

**Atodiad A – Ymateb Estyn** ..... 17

**Atodiad B – Ymgynghori â Disgyblion** ..... 21

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig yn Ysgol Cwrt Henri. Cafwyd cyfanswm o 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Ar y cyfan roedd yr ymateb yn gadarnhaol, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig, er bod lleiafrif wedi mynegi pryderon neu wrthwynebiadau.

Roedd y prif themâu o blaid y cynnig yn cynnwys: manteision cael mynediad cynharach at addysg, effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg a dwyieithrwydd, a chynaliadwyedd hirdymor yr ysgol. Ymhlith y themâu yn erbyn y cynnig neu'n mynegi pryder yn ei gylch roedd addasrwydd dechrau addysg ffurfiol yn dair oed a materion yn ymwneud â chyflwr adeilad yr ysgol. Ystyriwyd yr holl adborth yn unol â'r gofynion statudol.

## 2. Y CEFNDIR

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r adborth a gasglwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, a gynhaliwyd rhwng 4 Medi 2025 a 16 Hydref 2025. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad mewn ymateb i gynigion i newid ystod oedran Ysgol Cwrt Henri o 4-11 i 3-11 a chynnwys darpariaeth ar gyfer addysg feithrin ran-amser.

Mae'r adroddiad yn nodi'r broses ymgynghori, yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd ac yn dadansoddi'r materion allweddol a'r sylwadau a gyflwynwyd gan randdeiliaid.

## 3. Y BROSES YMGYNGHORI

Dilynodd y broses ymgynghori ganllawiau Llywodraeth Cymru, yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Rhoddodd y prosesau ymgynghori gyfle i ymgyngoreion rhagnodedig ddysgu am y cynnig a rhoi adborth.

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar 4 Medi 2025. Cafodd y ddogfen ymgynghori ei dosbarthu'n electronig i ymgyngoreion rhagnodedig a'i chyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Roedd copïau papur o'r ddogfen ymgynghori ar gael ar gais. Roedd y

ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r cynnig dan sylw, y rhesymau dros y cynnig a manylion yr ymarfer ymgynghori. Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn cynnwys ffurflen ymateb unigol. Rhoddwyd gwybod i'r ymgyngoreion fod modd llenwi ffurflen ar-lein a ble y dylid anfon llythyrau ysgrifenedig neu ymatebion drwy e-bost.

Ymgynghorwyd â disgyblion Ysgol Cwrt Henri mewn sesiwn bwrpasol gydag aelodau o'r Cyngor Ysgol.

## 4. DADANSODDI'R YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law rhwng 4 Medi a 16 Hydref 2025 wedi'u nodi isod:

| Yr Ymatebion a Ddaeth i Law | | | |
|---|---|---|---|
| Arolwg ar-lein | E-bost | Llythyr | Cyfanswm |
| 29 | 1 | 1 | 31 |

Yn ogystal â'r uchod, rhoddodd Estyn ymateb i'r ymgynghoriad a chasglwyd adborth gan ddisgyblion.

### 4.1 AROLWG AR-LEIN

Cafwyd cyfanswm o 29 o ymatebion i'r arolwg ar-lein. Ni chafwyd unrhyw ymatebion ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben. Nodir yr ymatebion isod.

**C1. Ydych chi'n ymateb fel:**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhiant, gofalwr neu warcheidwad | | 16 | Cyngor Cymuned | 0 |
| Llywodraethwr | | 2 | Arall: | 2 |
| Aelod o'r gymuned | | 7 | Staff | 1 |
| Darpar riant, gofalwr neu warcheidwad | | 1 | | |



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

**C2. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig?**

| Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|
| 26 | 1 | 2 |

Mae'r adborth o'r arolwg ar-lein yn dangos ymateb cadarnhaol i'r cynnig yn bennaf, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn mynegi cefnogaeth.

**C3. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn yr hoffech i ni eu hystyried?**

| **C3 Dadansoddi themâu allweddol yr ymatebion** | |
|---|---|
| **Cefnogi'r cynnig** | **Ddim yn cefnogi'r cynnig** |
| Mae angen darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar a byddai'n fuddiol i'r plant a'r gymuned. | Pryderon am addasrwydd adeilad yr ysgol ar gyfer plant iau. |
| Byddai'r cynnig yn cryfhau cynaliadwyedd a chystadleurwydd yr ysgol. | Pryderon y gallai dechrau addysg ffurfiol yn 3 oed fod yn rhy gynnar i rai plant. |
| Effaith gadarnhaol ar y Gymraeg a chydlyniant cymunedol. | |
| Byddai'n sicrhau bod Ysgol Cwrt Henri yn cyd-fynd ag ysgolion lleol eraill sydd eisoes yn cynnig darpariaeth ran-amser. | |

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gefnogaeth gref i ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar ac yn cydnabod y manteision canfyddedig i blant, yr ysgol a'r gymuned ehangach, gan gynnwys hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r themâu hyn yn cyd-fynd â nodau strategol Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a chefnogi parhad ieithyddol o addysg feithrin i addysg uwchradd.

Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi'r pryderon ynghylch cyflwr adeilad yr ysgol a'r oedran priodol i ddechrau addysg. Nid yw mynychu meithrinfa ran-amser yn 3 oed yn orfodol. Yr oedran cyfreithiol i ddechrau derbyn addysg yw 5 oed. Fodd bynnag, mae addysg gynradd fel arfer yn dechrau yn 4 oed. Mater i'r rhieni yw penderfynu a yw plentyn yn dechrau'r ysgol yn gynharach na hyn ond mae'n opsiwn i rieni sy'n teimlo bod eu plentyn yn barod. Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, mae digonolrwydd ac ansawdd yr adeiladau, yn ogystal â hyfywedd ychwanegu lleoedd meithrin, yn ffactorau allweddol wrth wneud penderfyniadau. Bydd y materion hyn yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses adolygu a chynllunio barhaus.

**C4. Oes unrhyw opsiynau eraill y dylai'r Cyngor fod yn eu hystyried ar gyfer Ysgol Cwrt Henri yn eich barn chi?**

| | **Oes** | **Dim Ymateb** | **Nac oes** |
|---|---|---|---|
| Oes unrhyw opsiynau eraill y dylai'r Cyngor fod yn eu hystyried ar gyfer Ysgol Cwrt Henri yn eich barn chi? | 3 | 1 | 25 |
| **Os oes, esboniwch yr opsiwn arall/opsiynau eraill**<br>Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau yn cyflwyno opsiynau eraill. | | | |

**C5.a. Yn eich barn chi, pa effeithiau cadarnhaol neu niweidiol fyddai'r cynnig hwn yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

| **C5.a Dadansoddi themâu allweddol yr ymatebion** |
|---|
| Effaith gadarnhaol ar ddatblygiad a pharhad y Gymraeg o oedran ifanc. |
| Mwy o gyfleoedd ar gyfer dwyieithrwydd a throchi i deuluoedd di-Gymraeg. |
| Cryfhau rôl y Gymraeg yn y gymuned a chefnogi'r strategaeth iaith genedlaethol. |

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau negyddol ar gyfer y cwestiwn hwn.



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod yr effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a pharhad y Gymraeg. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn nodi ymrwymiad i gynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg a sicrhau parhad ieithyddol o addysg feithrin i addysg uwchradd, gan gefnogi targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gefnogaeth gref i effaith gadarnhaol y cynnig ar ddatblygu'r Gymraeg a chyfleoedd dwyieithog.

**C5.b. Yn eich barn chi, sut allai'r cynnig gael ei lunio neu ei newid fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau yn cyflwyno opsiynau eraill.

**C5.c. Yn eich barn chi, sut allai'r cynnig gael ei lunio neu ei newid fel na fyddai'n cael effaith niweidiol neu'n cael effaith lai niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau yn cyflwyno opsiynau eraill.

## 4.2 YMATEBION A GYFLWYNWYD DRWY E-BOST

Cafwyd un ymateb drwy e-bost yn ystod y cyfnod ymgynghori.  Ni chafwyd unrhyw ymatebion drwy e-bost ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

| **Dadansoddi themâu allweddol yr ymatebion a gyflwynwyd drwy e-bost** |
|---|
| **Mynediad cynnar at addysg:** Byddai pob plentyn yn yr ardal wledig yn elwa ar brofiadau addysgol cyfoethog o 3 oed. |

| |
|---|
| **Cydweithio â darparwyr gofal plant lleol:** Parhau i weithio'n agos gyda'r cylch meithrin lleol (meithrinfa cyfrwng Cymraeg) a darparwyr gofal, gan ddatblygu pecynnau gofal addas ar gyfer rhieni sy'n gweithio. |
| **Cynnal cymuned ac addysg leol:** Sicrhau bod plant o ardal eang yn gallu parhau i dderbyn eu haddysg yn eu hysgol leol, gan gryfhau cysylltiadau cymunedol ac ymdeimlad o berthyn. |
| **Ysgol fel canolfan gymunedol:** Cadw Ysgol Cwrt Henri fel canolfan bwysig i'r gymuned gyfan. |
| **Cynaliadwyedd a dyfodol yr ysgol:** Cynyddu nifer y disgyblion i sicrhau dyfodol yr ysgol a dyfodol gwasanaethau lleol; heb y ddarpariaeth hon, mae rhai rhieni yn mynd â'u plant i ysgolion eraill, filltiroedd i ffwrdd. |
| **Cyfleusterau digonol:** Mae gan yr ysgol ddigon o le ac mae mewn cyflwr da i gynyddu nifer y disgyblion. |
| **Hyrwyddo'r Gymraeg:** Mae'r cynnig yn cefnogi'r nod o gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg drwy addysg gynnar. |

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu'r gefnogaeth gref i'r cynnig i ymestyn oedran derbyn Ysgol Cwrt Henri. Mae'r themâu a nodwyd yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys darparu mynediad cynnar at addysg o ansawdd uchel, cadw ysgolion fel canolfannau cymunedol, a hyrwyddo'r Gymraeg.

Bydd y cynnig yn galluogi plant i gael budd o brofiadau dysgu cyfoethog, yn cefnogi teuluoedd sy'n gweithio, ac yn gwella cynaliadwyedd y ddarpariaeth addysg leol.



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

### 4.3 YMATEBION A GYFLWYNWYD DRWY LYTHYR

Cafwyd un ymateb drwy lythyr yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ni chafwyd unrhyw ymatebion drwy lythyr ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

| **Dadansoddi themâu allweddol yr ymatebion a gyflwynwyd drwy lythyr** | |
|---|---|
| **Cefnogi'r cynnig** | **Pryderon** |
| Mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar | Staffio a Chymhwysedd Iaith |
| Ehangu Trochi Cynnar yn y Gymraeg | Trochi'n Llawn yn y Gymraeg |
| Proses Bontio Hwylus i Blant Ifanc | Ymgysylltu â rhieni |
| Cynaliadwyedd yr Ysgol | |

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu'r gefnogaeth gref i'r cynigion i ymestyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar a chryfhau parhad ieithyddol. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn pwysleisio trochi cynnar, ymgysylltu cymunedol, a chynaliadwyedd ysgolion. Bydd yr adborth cadarnhaol yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses statudol o wneud penderfyniadau.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod yr argymhellion adeiladol ynghylch staffio, trochi'n llawn yn y Gymraeg ac ymgysylltu â rhieni.

Mae Ysgol Cwrt Henri eisoes wedi'i chategoreiddio fel ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ac felly, pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai'r ddarpariaeth ran-amser a gynigir yn yr ysgol yn cael ei chyflwyno'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod eu holl staff yn gallu cyflwyno'r cwricwlwm yn hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd yr holl adborth a risgiau a nodir yn cael eu hystyried yn gydwybodol, a bydd mesurau lliniaru yn cael eu hymgorffori mewn cynlluniau gweithredu os oes angen i sicrhau bod y cynigion yn sicrhau'r budd mwyaf posibl i ddysgwyr, teuluoedd a'r Gymraeg.

## 4.4 DADANSODDI'R YMGYNGHORIAD Â DISGYBLION

Ymgynghorwyd â disgyblion Ysgol Cwrt Henri ar 10 Hydref 2025 mewn sesiwn bwrpasol gydag aelodau o'r Cyngor Ysgol. Mae dadansoddiad llawn o'r ymatebion a gafwyd yn Atodiad B.

| **Dadansoddi themâu allweddol yr ymatebion** | |
|---|---|
| **C1. Ydych chi'n gwybod efallai y byddwn yn newid oedran y plant sy'n gallu dod yma?** | |
| Byddai'r cynnig yn cefnogi rhieni sy'n gweithio drwy ddarparu gofal plant lleol. | Byddai'n galluogi mynediad at addysg i blant 3 oed yn yr ardal leol. |
| Byddai'r newid yn gwella'r broses bontio o'r Cylch Meithrin i'r ysgol. | Byddai'n sicrhau tegwch gydag ysgolion 3-11 eraill ac yn cefnogi datblygiad sgiliau cynnar. |
| **C2. Sut fyddech chi'n teimlo am gael plant sy'n iau na chi yn yr ysgol?** | |
| Byddai croesawu plant iau yn sicrhau hawliau cyfartal a mynediad at addysg. | Byddai'r newid yn creu ffrindiau newydd ac yn cynyddu cymuned yr ysgol. |
| Byddai mynediad cynnar at addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei gefnogi. | |
| **C3. Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am eich ysgol?** | |
| Mwynhau chwarae yn yr awyr agored a chymdeithasu â ffrindiau. | Gwerthfawrogi athrawon cefnogol ac ymrwymedig. |

| | |
|---|---|
| Profiadau cadarnhaol gyda thechnoleg ac adnoddau dysgu. | |
| **C4. Beth allai fod yn dda am fwy o blant ifanc yn dod i'n hysgol?** | |
| Mynediad cynnar at addysg cyfrwng Cymraeg i fwy o ddisgyblion. | Cyfleoedd i ddisgyblion hŷn gefnogi disgyblion iau. |
| Datblygiad sgiliau cynnar, yn enwedig i'r rhai sydd heb adnoddau gartref. | |
| **C5. A oes unrhyw beth rydych chi'n poeni amdano os yw'r ysgol yn newid?** | |
| Dim pryderon am y newid arfaethedig i 3-11. | Pryder y gallai peidio â newid i 3-11 arwain at lai o ddisgyblion a chau'r ysgol o bosib. |
| **C6. Beth hoffech chi ei ddweud wrth yr oedolion sy'n gwneud y penderfyniad?** | |
| Cefnogaeth ar gyfer y broses bontio a pharhad o leoliadau blynyddoedd cynnar. | Mynediad cynnar at gyfleusterau ac addysg cyfrwng Cymraeg. |
| Manteision cymunedol, gan gynnwys gofal plant lleol a chynaliadwyedd yr ysgol. | Mynediad teg at addysg y blynyddoedd cynnar. |

**Ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Adborth gan Ddisgyblion**

Mae'r Awdurdod Lleol yn falch o nodi bod disgyblion yn cydnabod manteision darparu addysg blynyddoedd cynnar leol, cefnogi teuluoedd sy'n gweithio, a sicrhau mynediad teg at y ddarpariaeth. Bydd y farn hon yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses statudol ac yn cyd-fynd ag ymrwymiad y Cyngor i gynyddu mynediad at addysg y blynyddoedd cynnar ac addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r agwedd gadarnhaol at gynhwysiant yn cael ei chroesawu yn ogystal â'r gydnabyddiaeth o fanteision addysg Gymraeg gynnar a chreu cymunedau. Bydd y safbwyntiau hyn yn llywio'r gwaith o gynllunio a gweithredu unrhyw newidiadau.
Mae'n cydnabod y gwerth y mae disgyblion yn ei roi ar chwarae yn yr awyr agored, staff cefnogol, a mynediad at dechnoleg. Bydd y ffactorau hyn yn cael eu hystyried wrth gynnal a gwella amgylchedd yr ysgol yn ystod unrhyw broses bontio.

Mae'n nodi'r manteision a nodwyd gan y disgyblion, gan gynnwys cymorth gan gyfoedion a datblygiad iaith cynnar. Mae'r rhain yn cyd-fynd â nodau strategol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a chyfleoedd teg i bob dysgwr.

Mae'n gwerthfawrogi'r gefnogaeth glir i'r newid arfaethedig a'r pwyslais ar y broses bontio, tegwch a manteision cymunedol. Bydd y ffactorau hyn yn rhan ganolog o ystyriaethau'r Cyngor ac yn cyd-fynd ag amcanion strategol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a'r blynyddoedd cynnar.

Nodir nad oedd unrhyw bryderon wedi'u mynegi yn yr adran hon. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryder am gynaliadwyedd yr ysgol, yr effaith ar nifer y disgyblion a hyfywedd cymunedol pe na bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen.

## 4.5 YMATEB ESTYN

Mae Estyn o'r farn bod y cynnig "*yn debygol o gyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant 3-11 oed i safon sydd o leiaf gyfwerth â chynnig 4-11 presennol yr ysgol*." Mae themâu allweddol ymateb Estyn yn cael eu crynhoi yn y tablau sy'n dilyn. Mae ymateb llawn Estyn wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

| **Thema 1: Ansawdd a pharhad addysg cyfrwng Cymraeg** |
| --- |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol:**<br>Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu barn Estyn y bydd y cynnig yn cynnal neu'n gwella safonau addysgol cyfrwng Cymraeg i blant 3–11 oed. Braf oedd nodi bod diwylliant cynhwysol a chefnogol yr ysgol yn cael ei amlygu fel cryfder. |

| Thema 2: Mynediad Cynnar a Chymorth Amserol |
| --- |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol:**<br>Yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022–2032, mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel, nodi anghenion dysgu yn gynnar, a chymorth cynhwysol i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY ac o gefndiroedd difreintiedig. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i fonitro safonau a chanlyniadau llesiant drwy gydol y broses weithredu. |

| Thema 3: Cynaliadwyedd yr Ysgol ac Effeithlonrwydd Adnoddau |
| --- |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol:**<br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cadarnhau y bydd y cynnydd disgwyliedig yn nifer y disgyblion yn gwella cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd adnoddau. |

| Thema 4: Cyfleusterau a Chapasiti |
| --- |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol:**<br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cadarnhau bod gan yr ysgol ddigon o gyfleusterau a lle awyr agored ar gyfer disgyblion meithrin heb fod angen buddsoddiad cyfalaf na newidiadau i strwythur y dosbarthiadau. |

| Thema 5: Effaith ar y Gymuned a'r Gymraeg |
| --- |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol:**<br>Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu cydnabyddiaeth Estyn bod y cynnig yn gyson â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'i allu i wella parhad y Gymraeg. Mae'n parhau i ymrwymo i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a bydd yn sicrhau bod y twf yn y ddarpariaeth yn cyfrannu'n uniongyrchol at strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Hefyd, bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod asesiadau o'r effaith ar y gymuned a'r Gymraeg yn parhau i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a gwaith ymgysylltu parhaus. |

| Thema 6: Effaith Bosibl ar Ddarparwyr Meithrinfeydd Preifat |
|---|
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol:**<br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y goblygiadau posibl i ddarparwyr meithrinfeydd preifat a gwarchodwyr plant. Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, mae'r cyngor yn ymrwymo i ymgynghori'n agored ac yn dryloyw ond hoffai nodi nad oes darparwyr o'r fath yn y dalgylch ar hyn o bryd. Er bod diffyg darparwyr yn y dalgylch yn lleihau'r risg hon, bydd pob barn yn cael ei hystyried cyn gwneud penderfyniad terfynol. |

| Thema 7: Cludiant a Hygyrchedd |
|---|
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol:**<br>Mae addysg y blynyddoedd cynnar yn anstatudol ac felly nid yw cludiant am ddim ar gael i blant 3 oed. Mae'r cyngor wedi ystyried effaith costau teithio ar deuluoedd incwm isel ac mae'n disgwyl i'r cynnig wella trefniadau teithio i deuluoedd sydd ar hyn o bryd yn cael mynediad at ddarpariaeth y tu allan i'r dalgylch. |

| Thema 8: Cynllunio Pontio |
|---|
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol:**<br>Bydd y trefniadau pontio yn cael eu cynllunio i sicrhau proses weithredu hwylus, a disgwylir cyn lleied o darfu ag sy'n bosibl oherwydd capasiti a chyfleusterau presennol yr ysgol. |

## 5. CASGLIAD

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gafwyd i'r cynnig hwn drwy gydol y broses ymgynghori hyd yn hyn. Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebion a gyflwynwyd gan randdeiliaid yn dangos yn glir bod cyflwyno darpariaeth feithrin ran-amser yn Ysgol Cwrt Henri yn cael ei ystyried yn fuddiol iawn i'r disgyblion, rhieni a'r gymuned. Mynegwyd ychydig o bryderon ynghylch oedran y disgyblion sy'n dechrau addysg ran-amser, ond rhaid i ni bwysleisio unwaith eto nad yw'r ddarpariaeth

hon yn orfodol a'i fod yn ddewis i'r rhieni ei wneud ynghylch a ydynt yn dymuno i'w plentyn fynychu meithrinfa ai peidio.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn gwerthfawrogi cefnogaeth Estyn i'r cynnig a oedd yn tynnu sylw at y ffaith ei fod yn debygol o gyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant 3-11 oed i safon sydd o leiaf gyfwerth â chynnig 4-11 presennol yr ysgol. Roedd Estyn yn cydnabod bod yr Awdurdod Lleol yn cyflwyno rhesymau clir dros y cynnig ac wedi ystyried yr effaith ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ogystal â dangos ei fod yn cyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Credir mai gweithredu'r cynnig i newid ystod oedran yr ysgol o 4–11 i 3–11 yw'r dull mwyaf addas am y rhesymau canlynol:

- Mae plant yn cael cyfleoedd cynnar i drochi yn y Gymraeg, gan gefnogi datblygiad sgiliau ieithyddol cryf.
- Mae plant tair oed yn elwa o gael eu cyflwyno'n raddol a chefnogol i'r ysgol, gan ddechrau gyda sesiynau hanner diwrnod a symud yn raddol i ddiwrnodau ysgol llawn.
- Mae'n creu darpariaeth feithrin yn yr ardal gan nad oes darparwyr meithrinfeydd preifat yn yr ardal ar hyn o bryd. Bydd hyn yn ei dro yn helpu i leihau anghydraddoldeb o ran darpariaeth o'i gymharu ag ysgolion cyfagos.
- Mae rhieni yn cael dewis ehangach o ran darpariaeth y blynyddoedd cynnar sydd ar gael yn y gymuned leol.
- Mae'n bosibl y bydd yr ysgol yn denu disgyblion ychwanegol, gan helpu i leihau nifer y lleoedd gwag a chryfhau ei chynaliadwyedd hirdymor.

Bydd yr Awdurdod yn bwrw ymlaen â'r broses statudol o wneud penderfyniadau yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), gan sicrhau mai budd pennaf dysgwyr yw'r flaenoriaeth o hyd a bod y gwaith o gyflwyno darpariaeth feithrin yn cael ei gynllunio'n ofalus a'i weithredu'n effeithiol.

## 6. ARGYMHELLIAD

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac asesu'r cynnig, argymhellir y dylid gofyn am ganiatâd i weithredu'r cynnig i newid ystod oedran yr ysgol o 4–11 i 3–11 heb ddiwygiad. Mae'r argymhelliad hwn yn adlewyrchu manteision y cynnig a nodwyd, gan gynnwys mwy o ddewis i rieni, gwell parhad addysg, gwella cynaliadwyedd yr ysgol, ac effeithiau cadarnhaol ar gyfle cyfartal a datblygu'r Gymraeg.

## 7. Y CAMAU NESAF

Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a fydd yn penderfynu a ddylid cymeradwyo'r cynigion ai peidio neu eu cymeradwyo gydag addasiadau.

Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi Hysbysiad Statudol os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynigion.

## ATODIAD A – YMATEB ESTYN

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Cyflwyniad O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

Y cynnig yw newid ystod oedran Ysgol Cwrt Henri o 4-11 i 3-11.

**Crynodeb / Casgliad**
Mae Estyn yn ystyried bod y cynnig yn debygol o gyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant 3–11 oed i safon sydd o leiaf gyfwerth â chynnig 4–11 presennol yr ysgol.

**Disgrifiad a manteision**
Mae'r Cyngor yn cyflwyno rhesymeg glir ar gyfer y cynnig hwn, sy'n amlinellu manteision newid yr ystod oedran yn Ysgol Cwrt Henri o 4–11 i 3–11. Er ei fod yn amlinellu'r weithdrefn statudol ac amserlen ragamcanol, yr unig ddyddiad gweithredu sydd wedi'i gadarnhau yw mis Medi 2026, heb unrhyw gynllun awgrymedig ar gyfer y cyfnod pontio. O ystyried bod y cynnig yn amlinellu bod cyfleusterau digonol yn yr ysgol ar hyn o bryd, byddai'n rhesymol tybio y byddai gofynion pontio yn fach iawn.

Mae'r cynnig yn nodi manteision ac anfanteision mewn ffordd gytbwys ac yn cynnwys mesurau i reoli risgiau posibl. Mae'n ymddangos bod y manteision yn gorbwyso'r anfanteision. Risg nodedig yw'r effaith bosibl ar ddarparwyr meithrinfeydd preifat.

Mae'r Cyngor yn ymrwymo i ymgynghori'n agored â darparwyr i asesu unrhyw effaith bosibl.

Mae'r cynnig yn nodi nad oes unrhyw ddarparwyr meithrinfeydd preifat o fewn dalgylch yr ysgol ar hyn o bryd.

Mae'r ddogfen ymgynghori'n cymharu'r cynnig yn erbyn cynnal y sefyllfa bresennol gyda'r hyn sy'n ymddangos yn rhesymu clir. Mae'r Cyngor yn nodi nad oes cludiant am ddim ar gael i ddisgyblion 3 oed, gan fod addysg y blynyddoedd cynnar yn anstatudol. Wrth wneud ei benderfyniad, mae'r Cyngor yn ystyried effaith costau teithio ar deuluoedd incwm isel a sut gallai'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar drefniadau teithio'r rhai sy'n teithio'r tu allan i'w dalgylch ar hyn o bryd i gael addysg gynnar. Yn ychwanegol, mae'n awgrymu y bydd y cynnig yn helpu cau'r bwlch yn narpariaeth y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 3 oed yn nalgylch Ysgol Cwrt Henri. Hefyd, disgwylir y bydd y newidiadau'n lleihau nifer y lleoedd dros ben yn yr ysgol. Rhagamcenir ar hyn o bryd y bydd 91 o leoedd ym mis Ionawr 2027.

Mae'r cynnig yn ystyried yr effaith ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac yn dangos bod hyn yn cyd-fynd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Byddai dosbarth Meithrin cyfrwng Cymraeg yn gwneud y Gymraeg yn fwy hygyrch yn y gymuned leol, gan gryfhau'r cyfnod pontio rhwng darpariaeth feithrin ac addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.

Os caiff ei gymeradwyo, ni fyddai angen cyllid cyfalaf ar y cynnig. Byddai ardaloedd dysgu presennol yn cael eu haddasu i dderbyn disgyblion ychwanegol, a byddai'r ysgol yn derbyn cyllid fformiwla dirprwyedig ar gyfer y ddarpariaeth newydd.

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn rhan o'r cynnig hwn.

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn rhan o'r cynnig hwn.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'n ymddangos bod y cynigiwr yn rhoi sylw gofalus i ddeilliannau addysgol. Mae'r cynnig yn defnyddio adroddiad arolygiad diweddaraf Estyn, gan nodi cryfderau presennol ac argymhellion ar gyfer gwella. Mae'n tybio'n rhesymol y byddai Ysgol Cwrt Henri yn cyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant 3–11 oed i safon sydd o leiaf gyfwerth â'i chynnig 4–11 presennol. Felly, ni ragwelir y bydd unrhyw effaith negyddol ar safonau na chynnydd disgyblion.

Mae adroddiad diweddaraf Estyn yn amlygu bod bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau bywyd yr ysgol ac yn gweithio ac yn teimlo'n ddiogel o fewn cymuned ddysgu gefnogol a chynhwysol. Mae'r diwylliant effeithiol a chynhwysol hwn yn awgrymu bod ehangu darpariaeth yn annhebygol o gael effeithiau andwyol ar les disgyblion. Mae'n ymddangos bod hwn yn ddatganiad rhesymol.

Mae'r cynnig yn nodi bod y pennaeth a phob aelod o staff yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn derbyn yr addysg orau i'w paratoi ar gyfer y dyfodol. Disgwylir y bydd cynnydd yn niferoedd y disgyblion yn gwella effeithlonrwydd o ran adnoddau ac yn cyfrannu at gynaliadwyedd yr ysgol yn y tymor hir. Mae'n ymddangos bod hyn yn rhesymol.

Mae'n ymddangos bod anghenion grwpiau bregus, gan gynnwys dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o gefndiroedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd, yn cael eu hystyried yn ofalus. Disgwylir y bydd mynediad cynharach at addysg yn cefnogi nodi anghenion dysgu unigol a darparu ymyriadau priodol yn amserol, gan wella deilliannau dysgwyr. Mae'r cynnig yn mynegi hyder yng ngallu'r ysgol i gyflwyno cwricwlwm pwrpasol i ddiwallu anghenion pob disgybl. Mae'n ymddangos bod hyn yn rhesymol.

**Ffactorau penodol lle mae cynigion yn ymwneud ag ychwanegu dosbarthiadau meithrin**

Mae'n ymddangos bod y Cyngor wedi ystyried adeiladau, cyfleusterau a hyfywedd tymor hir yn briodol. Gan fod yr ysgol yn gweithredu islaw'r capasiti ar hyn o bryd, ni fyddai angen gwneud unrhyw newidiadau i'r strwythur dosbarthiadau presennol yn yr ysgol i dderbyn y disgyblion ychwanegol yn y dosbarth Meithrin. Byddai capasiti a nifer

derbyn yr ysgol yn aros yr un fath. Mae’r cynnig yn datgan bod digon o ofod yn yr awyr agored, yn benodol ar gyfer disgyblion Meithrin, yn ogystal â’r disgyblion yng ngweddill yr ysgol. Mae’r Cyngor yn disgwyl y bydd y ddarpariaeth feithrin ychwanegol yn hybu niferoedd y disgyblion ac yn cael effaith gadarnhaol ar ei hyfywedd. Mae’n ymddangos bod hon yn rhagdybiaeth resymol.

Mae’r cynnig yn amlinellu bwlch yn narpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg o fewn dalgylch Ysgol Cwrt Henri. Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, mae’r ysgol yn anelu at ddatblygu darpariaeth gofal cofleidiol ochr yn ochr ag addysg y blynyddoedd cynnar, gan gynnig ymagwedd integredig at ddysgu a gofal.

Mae’r cynnig yn cydnabod yr effaith bosibl ar ddarparwyr addysg y blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg sy’n agos at Ysgol Cwrt Henri, y mae’r un agosaf 5.4 milltir o’r ysgol. Mae’r cynnig yn datgan y gall rhanddeiliaid allweddol ymateb i’r cynnig gydag unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ac y bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr holl safbwyntiau ac effeithiau posibl cyn gwneud penderfyniad.

## ATODIAD B – YMGYNGHORI Â DISGYBLION

**Ymgynghori â Disgyblion Ysgol Cwrt Henri**

**10/10/2025**

## Efallai y bydd eich ysgol yn newid!

Rydyn ni eisiau gwybod **beth ydych chi'n ei feddwl** os yw ein hysgol yn newid oedran y plant sy'n gallu dod yma. Mae hynny'n golygu y gallai fod **plant iau** yn ymuno.

Helpwch ni drwy ateb y cwestiynau hyn. Gallwch **dicio wyneb gwên** a dweud mwy wrthym os ydych chi eisiau!

---

**1. Ydych chi'n gwybod efallai y byddwn yn newid oedran y plant sy'n gallu dod yma?**

- ☐ 😊 Ydw
- ☒ 😟 Ddim yn siŵr
- ☐ 😞 Nac ydw

✏️ **Dywedwch wrthym beth ydych chi'n ei feddwl am hynny:**

Roedd y cyngor ysgol o'r farn y byddai'r cynnig yn syniad da gan y byddai'n darparu gofal plant i rieni sy'n gweithio. Byddai plant hefyd yn gallu cael mynediad at addysg yn eu hardal leol gan nad oes darpariaeth addysg ar gyfer plant 3 oed yn yr ardal ar hyn o bryd. Roedd y disgyblion yn meddwl y byddai'n darparu proses bontio dda rhwng y Cylch Meithrin lleol a'r Ysgol. Roedd y plant hefyd yn meddwl y byddai'r disgyblion yn cael yr un addysg ag ysgolion 3-11 eraill ac y byddai'n helpu plant i ddysgu sgiliau o oedran cynharach.

**2. Sut fyddech chi'n teimlo am gael plant sy'n iau na chi yn yr ysgol?**

- ☐ 😊 Hapus
- ☒ 🙂 Iawn
- ☐ 😟 Ddim yn siŵr
- ☐ 😨 Pryderus

✏️ **Pam ydych chi'n teimlo felly?**

Roedd y Cyngor Ysgol o'r farn y byddai'n rhoi'r un hawliau i'r plant lleol â phlant eraill sydd â mynediad at ddarpariaeth addysg 3-11. Byddai'r plant yn hapus i dderbyn disgyblion iau yn yr ysgol gan y byddai'n golygu bod mwy o blant yn mynychu'r ysgol a byddai pawb yn cwrdd â phlant newydd ac yn gwneud mwy o ffrindiau. Byddai

hefyd yn sicrhau y byddai plant yn gallu cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg o oedran cynharach.

**3. Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am eich ysgol?**

✏️ **Ysgrifennwch neu tynnwch lun o'ch ateb yma:**

Roedd y Cyngor Ysgol yn teimlo'n gryf am gael mynediad i fannau chwarae yn yr awyr agored a mwynhau gallu chwarae yn yr awyr agored gyda'u holl ffrindiau. Roedd y disgyblion hefyd yn cydnabod bod ganddynt athrawon sydd bob amser yn barod i helpu, sydd hefyd yn mwynhau chwarae gemau iard gyda'r plant. Mae'r plant hefyd yn mwynhau defnyddio Ipad i wneud eu gwaith.

🖍️ *(Gallwch dynnu llun os hoffech chi!)*

---

**4. Beth allai fod yn dda am fwy o blant ifanc yn dod i'n hysgol?**

- ❎ 😊 Gwneud mwy o ffrindiau
- ❎ Mwy o hwyl neu weithgareddau newydd
- ❎ 🏫 Mwy o blant mewn dosbarth
- ☐ 🤔 Dw i ddim yn siŵr

✏️ **Unrhyw bethau da eraill y gallwch chi feddwl amdanynt?**

Roedd y plant hefyd yn meddwl y byddai'n gyfle da i ddisgyblion gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg o oedran cynharach ac i ddisgyblion hŷn allu helpu'r disgyblion iau. Byddai hefyd yn golygu y gallai disgyblion ddysgu sgiliau o oedran cynharach, yn enwedig y rhai nad oes ganddynt gyfleusterau gartref.

**5. A oes unrhyw beth rydych chi'n poeni amdano os yw'r ysgol yn newid?**

- ☐ 😟 Gormod o blant
- ☐ 😢 Colli pethau rwy'n eu hoffi nawr
- ☐ 🤷 Ddim yn siŵr

✏️ **Dywedwch fwy wrthym neu tynnwch lun o'ch pryderon:**

Nid oedd gan y Cyngor Ysgol unrhyw bryderon am newid yr ysgol i 3-11. Fodd bynnag, roedd gan y plant hyn bryderon pe na bai'r ysgol yn newid i 3-11, y byddai rhieni yn dewis anfon eu plant i ysgolion 3-11 eraill gan arwain at gau'r ysgol oherwydd nad oedd digon o blant yn mynychu'r ysgol.



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**6. Beth hoffech chi ei ddweud wrth yr oedolion sy'n gwneud y penderfyniad?**

✏️ **Dyma'ch lle i rannu eich syniadau!**

Roedd y Cyngor Ysgol yn teimlo'n gryf y dylai'r ysgol newid i 3-11 am y rhesymau canlynol:

- Cyfleoedd i bontio rhwng y Cylch Meithrin lleol a'r ysgol
- Bydd disgyblion yn gallu cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg o oedran cynharach
- Bydd gan ddisgyblion fynediad at gyfleusterau priodol
- Bydd y newid yn helpu'r gymuned leol i ddarparu gofal plant lleol a chadw'r ysgol ar agor
- Nid oes mynediad at ddarpariaeth addysg 3 oed yn yr ardal leol ac felly mae'n rhaid i ddisgyblion fynychu ysgolion eraill.
- Mae'n rhoi'r un hawliau i bob plentyn â'r rhai sydd â mynediad at addysg 3-11.

**Diolch am ein helpu!**
Mae eich meddyliau yn bwysig iawn.